



**CYNLLUN GWEITHREDU MEWN YMATEB I AROLYGIAD URDDAS A GOFAL HANFODOL GAN AROLYGIAETH GOFAL
IECHYD CYMRU AR WARD 6 Y GORLLEWIN A WARD 8 Y DWYRAIN YN YSBYTY ATHROFAOL LLANDOCHAU**

Pryder a nodwyd	Man a'r pryder penodol	Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Cynnydd ac Amserlen
1. AMGYLCHEDD Y WARD				
Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r trefniadau storio i sicrhau bod eiddo'r cleifion a chyflenwadau'r ward yn cael eu cadw'n briodol.	6 y Gorllewin Cilfachau'r menywod yn fach ac annibendod rhwng y gwelyau.	Adolygu Trawsnewid Gofal, y Ward Drefnus lawn a'r cynllun gwaredu annibendod. Y dalenni llofnodi ar yr amserlen lanhau i gynnwys gwaredu annibendod. Y cleifion i'w hatgoffa i ddod ag eiddo sy'n hanfodol i'w gofal yn unig.	Prif Nyrs y ward. Prif Nyrs y Ward Arweinydd Trawsnewid Gofal.	Wedi ei gwblhau Hydref 2012. Mae tacluso'r ward wedi ei gynnwys ar amserlen lanhau'r ward ar gyfer offer a ddefnyddir yn gymunedol. WEDI EI GWBLHAU Mae poster wedi ei ddatblygu gan Brif Nyrsys y Ward/Nyrsys â Gofal fel rhan o'r rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol i atgoffa cleifion i gyfyngu ar faint o eiddo personol y maent yn dod gyda hwy i'r ysbyty.

Pryder a nodwyd	Man a'r pryder penodol	Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Cynnydd ac Amserlen
	<p>Offer yn cael ei gadw yn y coridor.</p> <p>Comodau yn cael eu cadw'n amhriodol yng nghawod y cleifion.</p> <p>Yr ystafell ddydd yn cael ei defnyddio i gadw offer meddygol a matresi.</p>	<p>Offer meddygol angenrheidiol yn unig i'w gadw yn y coridor. Mannau storio penodedig i'w nodi gyda thâp.</p> <p>Cael amcangyfrif ar gyfer troi un pen o'r ystafell ddydd yn fan ar gyfer cadw 2 gomôd.</p> <p>Fel yr uchod a man i'w benodi yn yr ysbyty i gadw matresi.</p>	<p>Prif Nyrs y Ward.</p> <p>Prif Nyrs y Ward.</p>	<p>Wedi ei gwblhau Mae gwaith wedi ei wneud fel rhan o'r rhaglen Trawsnewid Gofal i adolygu'r trefniadau storio ar gyfer offer clinigol ac i ddatblygu manau cadw offer er mwyn gallu mynd atynt yn gyflym.</p> <p>Mae trafodaethau ynglŷn â'r cynllun wedi dechrau a disgwylir amcangyfrif ar gyfer gwneud y gwaith erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.</p> <p>Wedi ei gwblhau Mae cyfleuster storio wedi ei benodi gan yr ysbyty i gadw matresi nas defnyddir. Mae'r matresi'n cael eu casglu o'r wardiau gan y porthorion. Mae'r sylwadau hyd yn hyn yn dangos bod y trefniant hwn yn gweithio'n dda.</p>

Pryder a nodwyd	Man a'r pryder penodol	Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Cynnydd ac Amserlen
<p>Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau y sefydlir mesurau trwy'r Bwrdd lechyd i hysbysu pobl eraill bod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu y tu ôl i lenni sydd wedi eu cau, a hefyd bod y staff yn ymwybodol ei bod yn ofynnol iddynt beidio â mynd i mewn.</p>	<p>6 y Gorllewin</p> <p>Unwaith yn unig y gwelwyd pegiau urddas yn cael eu defnyddio.</p>	<p>Uwch Nyrsys i ddefnyddio Offeryn Canllawiau Ymweld â Wardiau i fonitro cydymffurfiad â phegiau urddas.</p>	<p>Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio.</p>	<p>Offeryn Canllawiau Ymweld â Wardiau i'w fabwysiadu ledled y Bwrdd lechyd erbyn mis Rhagfyr 2012.</p>
	<p>8 y Dwyrain</p>	<p>Rhaid atgoffa timau'r ward am bwysigrwydd pegiau urddas.</p>	<p>Prif Nyrs y Ward.</p>	<p>Wedi ei Gwblhau Mae Prif Nyrs y Ward wedi cynnwys nodyn i atgoffa'r holl staff yn ystod y cyfnod trosglwyddo ac yn y cyfarfodydd ward bob pythefnos.</p>
	<p>6 y Gorllewin</p>	<p>Canlyniadau archwiliad Hanfodion gofal i'w hadolygu er mwyn cadarnhau lefel y cydymffurfiad.</p> <p>Bwrdd urddas i'w ddatblygu mewn cysylltiad â chyflwyno'r Cynllun Pili Pala.</p>	<p>Prif Nyrs y Ward. Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio.</p>	<p>Cynhaliwyd archwiliadau Hanfodion Gofal erbyn diwedd mis Awst 2012 ac fe'u cwblhawyd. Cyflwynir adroddiad i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ym mis Tachwedd 2012.</p> <p>Dechreuodd y gwaith o ddatblygu'r Bwrdd Urddas ym mis Medi 2012. Bydd y datblygiad yn cael ei fonitro bob chwarter.</p>

Pryder a nodwyd	Man a'r pryder penodol	Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Cynnydd ac Amserlen
2. AGWEDD AC YMDDYGIAD Y STAFF				
<p>Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y staff sy'n cynnal rowndiau meddygol yn gwneud hynny mewn modd sensitif er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y claf.</p>	<p>6 y Gorllewin:</p> <p>Gwelwyd ymgynghorydd yn siarad yn uchel gyda chlaf am ei gyflwr.</p>	<p>Y staff meddygol i gynnal archwiliadau o rowndiau'r ward.</p> <p>Rhaid atgoffa timau'r ward bod angen sicrhau urddas a phreifatrwydd y cleifion yn ystod rowndiau ar y wardiau.</p> <p>Defnydd o ystafell breifat i'w annog, pan fo hynny'n bosibl.</p>	<p>Cyfarwyddwr Clinigol Ymgynghorwyr Ward.</p> <p>Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth.</p> <p>Prif Nyrs y Ward Ymgynghorydd.</p>	<p>Mae offeryn archwilio rowndiau ward wedi ei ddsbarthu i'r holl Gyfarwyddwyr Clinigol trwy'r Bwrdd lechyd er mwyn gallu mesur y parch at y cleifion a lefel yr urddas yn ystod y rownd o'r ward a datblygu cynlluniau gwella fel bo'r angen. Dosbarthwyd yr offeryn archwilio ym mis Medi 2012 i'w gynnal a darparu sylwadau i'r Cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch Adrannol erbyn mis Ionawr 2013.</p> <p>Canlyniadau archwiliadau'r rowndiau ward i'w cyflwyno yn y Cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Adrannol ym mis Tachwedd 2012.</p> <p>Mae'r tîm profiad y cleifion wedi dechrau rhaglen i ddarparu ystafelloedd preifat ar y wardiau trwy'r Bwrdd lechyd a hyd yn hyn,</p>

Pryder a nodwyd	Man a'r pryder penodol	Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Cynnydd ac Amserlen
		Adolygu 'sylwadau 2 funud o'ch amser' a chymryd camau gwella pan fo'n ofynnol.	Prif Nyrs.	mae 22 o ystafelloedd wedi eu hailwampio. Yn y tymor hir mae cyfle i ddarparu ystafelloedd preifat fel rhan o strategaeth adnewyddu'r wardiau. Nid yw'r cynlluniau i wneud y gwaith adnewyddu wedi eu cytuno hyd yn hyn. Wedi ei Gwblhau Cyflwynir adroddiadau ymhob cyfarfod misol o'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Adrannol.
Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl staff ar y wardiau yn gwisgo bathodynnew adnabod pan fyddant ar ddyletswydd.	6 y Gorllewin, 8 y Dwyrain. Nid oedd yr holl staff yn gwisgo bathodynnew enw.	Uwch Nyrsys i ddefnyddio'r Offeryn canllawiau ymweld â wardiau i fonitro cydymffurfriad o ran gwisgo bathodynnew adnabod.	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio.	Y Canllaw ymweld â wardiau i'w fabwysiadu trwy'r Bwrdd lechyd erbyn mis Rhagfyr 2012.
		Rhaid pwysleisio wrth bob aelod o'r Tîm Amlddisgyblaethol pa mor bwysig yw gwisgo bathodyn adnabod a dylid cynnal archwiliadau ar hap.	Prif Nyrs y Ward.	Mae Prif Nyrs y Ward wedi dechrau adolygiad ym mis Hydref 2012 a rhoddir ymateb ar unwaith i'r staff. Bydd hwn yn cael ei gynnwys yng nghynllun archwilio Prif Nyrs y Ward ar gyfer yr Adran erbyn mis Tachwedd 2012.

Pryder a nodwyd	Man a'r pryder penodol	Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Cynnydd ac Amserlen
		Memorandwm i'w gyflwyno gan grŵp Cod Gwisg Cymru Gyfan y Bwrdd Iechyd i atgoffa'r holl staff ei bod yn bwysig iddynt wisgo bathodyn adnabod bob amser.	Arweinydd grŵp Cod Gwisg Cymru Gyfan y Bwrdd Iechyd.	Erbyn diwedd mis Hydref 2012.
3. RHEOLI CLEIFION DRYSLYD NEU SYDD Â DEMENTIA				
Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod arwyddion mawr ar gael ar gyfleusterau cleifion i gynorthwyo'r cleifion i ddod o hyd iddynt.	6 y Gorllewin: Roedd yr arwyddion ar gyfleusterau tŷ bach a chawod y cleifion yn fach a gallent fod yn eglurach.	Adolygu'r arwyddion a phamor briodol ydynt trwy'r Bwrdd Iechyd. Adolygu archwiliadau Hanfodion Gofal a chymryd camau gwella fel bo'r angen.	Rheolwr Ystadau a Chynllunio Cyfalaf. Prif Nyrs y Ward.	Dechreuodd grŵp Wayfinder y Bwrdd Iechyd adolygu'r arwyddion trwy'r Bwrdd Iechyd i sicrhau eu bod yn safonol a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gleifion â nam gwybyddol neu nam ar eu synhwyrâu. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Medi 2012. Mae Ward 6 y Gorllewin wedi ei hailwampio ac roedd hyn yn cynnwys yr arwyddion. Er bod y cleifion wedi rhoi sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r arwyddion, mae mwy o waith yn ofynnol yn ôl cyfarwyddyd y grŵp Wayfinder.

Pryder a nodwyd	Man a'r pryder penodol	Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Cynnydd ac Amserlen
<p>Dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu a gweithredu polisi ynglŷn â sut i reoli cleifion â dementia a hyfforddi'r staff i'w ddefnyddio.</p>	<p>8 y Dwyrain.</p>	<p>Datblygu rhaglen hyfforddi a chynllunio rhaglen i staff allweddol ei dilyn.</p> <p>Cyflwyno'r cynllun Pili Pala fel modd o wella'r dull o reoli cleifion â Dementia.</p>	<p>Adran Dysgu ac Addysg.</p> <p>Adran Feddyginiaeth Prif Nyrs Datblygu.</p>	<p>Wedi ei gwblhau Mae'r Bwrdd lechyd wedi datblygu fframwaith o hyfforddiant Dementia. Cedwir cofnodion hyfforddi gan yr Adran Dysgu ac Addysg.</p> <p>Mae'r cynllun Pili Pala wedi ei sefydlu ar ward 8 y Dwyrain. Mae'r cynllun wedi ei gyflwyno ar ward 6 y Gorllewin ers mis Medi 2012 a bydd y datblygiad yn cael ei adolygu ym mis Rhagfyr.</p>
<p>Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu lleoliad cleifion â dementia er mwyn sicrhau ei bod yn haws i'r staff sydd ar ddyletswydd eu harsylwi.</p>		<p>Y staff i dderbyn hyfforddiant ac i gydymffurfio ag asesiadau risg cleifion sydd angen goruchwyliaeth/gofal arbenigol.</p> <p>Cyflwyno rowndiau bwriadol i'w ddatblygu trwy'r Bwrdd lechyd.</p>	<p>Uwch Nyrsys.</p> <p>Prif Nyrs y Ward/ Nyrs â Gofal Arweinydd Trawsnewid Gofal.</p>	<p>Mae offeryn arbenigo wedi ei gyflwyno yn y Bwrdd lechyd. Cynhelir archwiliad o gydymffurfriad ym mis Tachwedd 2012, a chyflwynir adroddiad yn fforwm Adrannol y Prif Nyrsys/Nyrsys â Gofal.</p> <p>Mae dros 90% o'r staff mewn ardaloedd cleifion mewnol wedi dilyn y rhaglen Trawsnewid Gofal ac wedi</p>

Pryder a nodwyd	Man a'r pryder penodol	Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Cynnydd ac Amserlen
				blaenoriaethu modiwlau gwella yn unol ag anghenion y cleifion ar eu wardiau.
4. CYNLLUNIO A DARPARU GOFAL				
<p>Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gan yr holl gleifion mewnol cynlluniau gofal sydd wedi eu haddasu i anghenion penodol y claf a bod y cynlluniau gofal hyn yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.</p>	<p>6 y Gorllewin</p> <p>Roedd y cynlluniau gofal yn gyffredinol ac nid oeddynt wedi eu haddasu i adlewyrchu anghenion penodol y claf.</p>	<p>Cynnal adolygiad o ddogfennau'r cleifion.</p> <p>Cynnal archwiliad o'r cynlluniau gofal i sicrhau eu bod yn unigol ac yn nodi'r gofal sy'n ofynnol ar gyfer y claf hwnnw. Cyflwyno cynlluniau gwella fel bo'r angen.</p>	<p>Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol.</p> <p>Prif Nyrs y Ward Uwch Nyrs.</p>	<p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi dechrau adolygiad o ddogfennau'r cleifion i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau gofynnol a nodir gan Grŵp Dogfennau Cymru Gyfan. Mae amserlenni yn dibynnu ar y cynnydd a wneir ar lefel Cymru gyfan.</p> <p>Wedi ei gwblhau Cynhaliwyd archwiliad o'r cynlluniau gofal ym mis Awst 2012 a datblygwyd cynllun gwella. Roedd canlyniadau'r Archwiliad Hanfodion Gofal, Safon 1, a gynhaliwyd ym mis Awst hefyd, yn dangos</p>

Pryder a nodwyd	Man a'r pryder penodol	Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Cynnydd ac Amserlen
				gwelliannau. Defnyddir yr offeryn canllawiau ymweld â wardiau i sicrhau cydymffurfiad parhaus. Trafodir y canlyniadau a chytunir ar gynlluniau gwella pan fo angen, yn fforwm Adrannol y Prif Nyrsys/Nyrsys â Gofal.
<p>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd adolygu'r dull o reoli a monitro cleifion y mae eu cyflwr yn gwaethygu. Rhaid sicrhau bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant priodol er mwyn adnabod arwyddion gwaethygu, a'u bod yn deall ac yn dilyn y broses ar gyfer hysbysu uwch swyddogion yn briodol.</p>	<p>8 y Dwyrain.</p>	<p>Mae un nyrs staff wedi llunio cynllun gweithredu manwl yn llwyddiannus. Trefnwyd a dilynwyd addysg berthnasol.</p> <p>Trafodir pob claf sydd â salwch aciwt yng Nghyfarfod Diogelwch y Ward.</p> <p>Cyflwyno siartiau NEWS a menter RRAILS yn y Bwrdd Iechyd.</p>	<p>Prif Nyrs y Ward Uwch Nyrs.</p> <p>Cyfarwyddwyr Clinigol Nyrsys Arweiniol.</p>	<p>Wedi ei gwblhau Ymdriniwyd â'r mater penodol hwn ar unwaith gan Brif Nyrs y Ward ac Uwch Nyrs Ward 8 y Dwyrain.</p> <p>Mae'r cyflwyniadau diogelwch wedi eu sefydlu'n dda fel rhan o'r broses drosglwyddo ar ward 8 y Dwyrain.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno'r siart NEWS a'r fenter RRAILS ar hyn o bryd yn yr holl ardaloedd clinigol. Mae sesiynau addysg ar</p>

Pryder a nodwyd	Man a'r pryder penodol	Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Cynnydd ac Amserlen
				<p>gyfer y staff wedi eu cynllunio. Bydd buddion NEWS a'r algorithm ymateb a ddisgwylir yn cael eu sefydlu'n rhan annatod o arferion gwaith.</p> <p>ERBYN MAWRTH 2013.</p>
5. HYLIF A MAETH				
	<p>6 y Gorllewin:</p> <p>Ychydig iawn o gyfraniad o oedd gan Nyrsys Cofrestredig ar adeg prydau bwyd.</p>	<p>Ail edrych ar y fenter amserau prydau bwyd wedi eu diogelu a chydymffurfiad monitro.</p>	<p>Prif Nyrs y Ward Nyrsys Arweiniol ac Uwch.</p>	<p>Wedi ei gwblhau</p> <p>Cynllun Gwely wedi ei gyflwyno sydd angen cyfarwyddyd a goruchwyliaeth gan nyrs gofrestredig. Derbyniwyd canfyddiadau'r adolygiad cymorth i fwyta yng nghyfarfod Grŵp Llywio Maeth ac Arlwy y Bwrdd Iechyd. Amser prydau bwyd wedi ei ddiogelu yn cael ei fonitro fel rhan o'r archwiliad Hanfodion Gofal a thrwy</p>

Pryder a nodwyd	Man a'r pryder penodol	Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Cynnydd ac Amserlen
	<p>Mynegodd sawl claf ddymuniad i gael mwy o ddiodydd poeth. Cafwyd cyfanswm o bump rownd ddiodydd yn hytrach na'r saith i wyth safonol a nodir.</p>	<p>Yr holl staff i ddilyn pecyn e-ddysgu Rhaglen Cymhwysedd Sgrinio Maeth a Siart Cofnodi Bwyd Cymru Gyfan.</p> <p>Adolygu'r sylwadau o'r arolwg ' 2 funud o'ch</p>	<p>Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio/Nyrs Adrannol.</p> <p>Nyrs Arweiniol.</p>	<p>archwiliadau penodol sy'n canolbwyntio ar y broses amserau prydau bwyd a ddiogelir (archwiliadau ar hap). Derbynnir y canlyniadau yng nghyfarfod Grŵp Llywio'r Bwrdd lechyd. Bydd yr Uwch Nyrsys hefyd yn monitro cydymffurfiad gan ddefnyddio'r offeryn Canllawiau Ymweld â Wardiau, sydd i'w gyflwyno trwy'r Bwrdd lechyd erbyn mis Rhagfyr 2012.</p> <p>Erbyn mis Rhagfyr 2012.</p> <p>Wedi ei gwblhau Mae nifer y rowndiau diodydd poeth i bob ward bellach wedi ei gynnwys yn yr adroddiad Adrannol chwarterol i Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyio y Bwrdd lechyd.</p> <p>Wedi ei gwblhau</p>

Pryder a nodwyd	Man a'r pryder penodol	Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Cynnydd ac Amserlen
		<p>amser' a chymryd camau i wneud gwelliannau pan fo angen.</p> <p>Ychwanegu gwybodaeth i daflen y ward ynglŷn â gofyn am ddiodydd poeth pan fo angen.</p>	Prif Nyrs y Ward.	<p>Darperir adroddiadau ym mhob Cyfarfod Ansawdd a Diogelwch misol yr Adran Feddyginiaeth</p> <p>Erbyn diwedd Rhagfyr 2012</p>
	8 y Dwyrain	Monitro ac atgoffa'r holl staff ei bod yn bwysig i sicrhau bod y cleifion yn gallu estyn eu diod	Prif Nyrs y Ward	<p>Wedi ei gwblhau</p> <p>Bydd yr Uwch Nyrs yn defnyddio'r canllawiau ymweld â wardiau i fesur cydymffuriad.</p>
		Cyflwyno'r rowndiau bwriadol.	Prif Nyrs y Ward Arweinydd Trawsnewid Gofal.	Erbyn Tachwedd 2012.
Dylai'r Bwrdd lechyd ystyried defnyddio gwirfoddolwyr i gynorthwyo cleifion i fwyta eu prydau bwyd.		Datblygu swyddogaeth y gwirfoddolwr ar y ward i annog y cleifion i fwyta a pharatoi'r amgylchedd ar gyfer amser prydau bwyd.	Prif Nyrs y Ward	<p>Wedi ei gwblhau</p> <p>Cytunodd y Bwrdd lechyd y bydd swyddogaeth y gwirfoddolwr yn cael ei ddatblygu i gynorthwyo nyrsys y ward i annog y cleifion i fwyta a pharatoi'r amgylchedd ar gyfer amser pryd bwyd. Ni fydd y swyddogaeth yn cael ei datblygu i gynnwys</p>

Pryder a nodwyd	Man a'r pryder penodol	Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Cynnydd ac Amserlen
		Staff y ward i hysbysu uwch nyrs os oes ganddynt lawer o gleifion i'w bwydo a'u bod yn methu â gwneud hynny'n brydlon.	Prif Nyrs y Ward/Uwch Nyrs.	bwydo'r cleifion. Defnyddir gwirfoddolwyr eisoes i baratoi ar gyfer amser pryd bwyd ar rai wardiau. Wedi ei gwblhau.
6. GOFAL A HYLENDID PERSONOL				
Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl gleifion yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn amser pryd bwyd.	6 y Gorllewin: Ni welwyd y cleifion yn cael cyfle i olchi eu dwylo neu i ddefnyddio llieiniau gwlyb cyn amser pryd bwyd.	Prif Nyrs y Ward i atgoffa tîm y ward ei bod yn bwysig bod gan y cleifion ddwylo glan ar adeg pryd bwyd.	Prif Nyrs y Ward.	Wedi ei gwblhau Mae'r adroddiad adrannol chwarterol i grŵp Maeth ac Arlwyo'r Bwrdd lechyd bellach yn cynnwys cydymffurfriad â'r weithdrefn ar gyfer paratoi cleifion cyn amser pryd bwyd.
Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o bob agwedd ar ofal personol y claf.	Dwyrain 8 Gofal am yr ewinedd.	Pwysleisio pwysigrwydd cynnwys gofal am yr ewinedd a glendid fel rhan o ofal personol y claf. Defnyddir y canllawiau ymweld â wardiau gan yr	Prif Nyrs y Ward Uwch Nyrs. Uwch Nyrs.	Wedi ei gwblhau Mae canfyddiadau archwiliad AGIC wedi eu trafod yng nghyfarfodydd y ward yn ogystal â phwysigrwydd cynnwys gofal am yr

Pryder a nodwyd	Man a'r pryder penodol	Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Cynnydd ac Amserlen
		<p>Uwch Nyrs i fonitro safon y gofal personol a ddarperir i gleifion.</p> <p>Canlyniadau Hanfodion Gofal, Safon 8 i gael eu hadolygu.</p>		<p>ewinedd fel rhan o ofal personol y claf.</p> <p>Bydd y Canllawiau Ymweld â wardiau'n cael eu hardystio trwy'r Bwrdd lechyd o fis Rhagfyr 2012.</p> <p>Mae archwiliad Hanfodion Gofal wedi ei gynnal a chyflwynir adroddiad i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ym mis Tachwedd 2012.</p>
7. SEINYDDION				
Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gan yr holl gleifion gloch alw y maent yn gallu ei chyrraedd.	8 y Dwyrain.	Adolygu darpariaeth y clychau galw trwy'r Bwrdd lechyd a datblygu cynllun gwaith.	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio.	Mae'r adolygiad o'r clychau galw trwy'r Bwrdd lechyd wedi ei gwblhau. Mae angen cytuno ar raglen waith

Pryder a nodwyd	Man a'r pryder penodol	Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Cynnydd ac Amserlen
		Atgoffa'r staff bod angen iddynt sicrhau bod y cleifion yn gallu cyrraedd eu clychau galw yn rhwydd.	Prif Nyrs y Ward.	er mwyn gosod clychau galw yn y manau a nodwyd yn yr adroddiad. Rowndiau bwriadol i'w cyflwyno erbyn mis Tachwedd 2012.
8. ANGHENION O RAN MYND I'R Tŷ BACH				
Dylai'r Byrddau lechyd sicrhau bod cadeiriau olwyn ar gael ar wardiau i gynorthwyo cleifion i fynd a dod o'r tai bach.	Gorllewin 6 Roedd cleifion yn cael eu symud ar gomodau.	Sicrhau bod o leiaf ddwy gadair olwyn ar gael i'w defnyddio. Pwysleisio wrth dîm y ward y dylid defnyddio cadeiriau olwyn i gynorthwyo cleifion i fynd i'r tai bach.	Prif Nyrs y Ward Uwch Nyrs. Prif Nyrs y Ward.	Wedi ei gwblhau. Mae cadeiriau olwyn ar gael. O fis Hydref 2012.
		Treialu teclyn codi a sefyll y gellir ei ddefnyddio i drosglwyddo cleifion.		Mae trafodaethau wedi dechrau gyda Thîm Codi a Chario y Bwrdd lechyd. Erbyn mis Tachwedd 2012.
Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl gleifion yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i fynd i'r tŷ bach yn y modd y maent yn ei		Cynnal asesiad o anghenion ymataliaeth y claf ar adeg ei dderbyn i'r ward.	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio.	Mae hyn yn rhan hanfodol o asesiad y claf ar adeg ei dderbyn ac yn barhaus yn ystod

Pryder a nodwyd	Man a'r pryder penodol	Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Cynnydd ac Amserlen
ddewis.		Prif Nyrs y Ward i ofyn am gyngor ac am hyfforddiant ar gyfer tîm y ward gan arweinydd ymataliaeth y Bwrdd Iechyd.	Prif Nyrs y Ward.	cyfnod y claf yn yr ysbyty. Mae'r cwestiynau yn yr asesiad ymataliaeth yn anghywir yn y Canllawiau Ymweld â'r Wardiau. Mae'r drafft cyntaf wedi ei gylchredeg er mwyn derbyn sylwadau a rhagwelir y bydd wedi ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2012. Erbyn mis Rhagfyr 2012.
9. RHEOLI MEDDYGINIAETHAU A RHEOLI POEN				
Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod dulliau wedi ei sefydlu i sicrhau bod y cleifion yn cymryd eu meddyginiaeth pan fyddant yn ei derbyn ac nad yw'n cael ei gadael heb oruchwyliaeth ar gypyrddau'r cleifion wrth ochr y gwely.	6 y Gorllewin 8 y Dwyrain Roedd meddyginiaeth cleifion wedi ei gadael ar y bwrdd wrth ochr y gwely.	Datblygwyd cynllun gweithredu ar ôl cynnal 'adolygiad Archwiliad Mewnol o'r dulliau rheoli meddyginiaeth.	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio. Prif Nyrs y Ward, Uwch Nyrs.	O ganlyniad i weithgaredd archwilio mewnol, mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio wedi cyfarfod gyda Phrif Nyrsys y Wardiau/Nyrsys â Gofal o bob Adran i bwysleisio pwysigrwydd gwella'r dulliau o reoli meddyginiaeth.

Pryder a nodwyd	Man a'r pryder penodol	Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Cynnydd ac Amserlen
		Gweithredu Cynllun Gwella'r Adran Feddyginiaeth ar gyfer Rheoli Meddyginiaeth.	Nyrs Arweiniol y Bwrdd Iechyd ar gyfer Rheoli Meddyginiaeth.	Wedi ei gwblhau Dechreuwyd gweithredu'r cynllun gwella ym mis Gorffennaf 2012.
		<p>Y Dirprwy Brif Nyrs a'r Cyfarwyddwr Clinigol i weithio gyda'i gilydd i wella'r dull o reoli meddyginiaeth.</p> <p>Cynnal archwiliadau rheoli meddyginiaeth fel rhan o'r rhaglen archwilio ac adolygu'r canlyniadau.</p> <p>Cynnal archwiliadau ar hap 'adolygu dulliau rheoli meddyginiaeth', a hysbysu'r staff yn y manau clinigol am y canlyniadau'n brydlon.</p>	<p>Prif Nyrsys y Wardiau Uwch Nyrs.</p> <p>Archwiliad mewnol.</p> <p>Uwch Nyrsys.</p>	<p>Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf i drafod y cynllun gwella ym mis Medi 2012.</p> <p>I'w adolygu a chyflwyno adroddiad yn y cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Adrannol.</p> <p>Dechreuodd ail rownd yr Archwiliad Mewnol ym mis Hydref 2012.</p> <p>Dechreuodd archwiliadau ar hap ym mis Awst 2012.</p>

Pryder a nodwyd	Man a'r pryder penodol	Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Cynnydd ac Amserlen
10. CYNLLUNIO AR GYFER RHYDDHAU CLEIFION				
<p>Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod systemau wedi eu sefydlu i atal prosesau gwael o ryddhau cleifion unigol.</p>	<p>6 y Gorllewin: Roedd diffygion yn y system pan nad oedd cydgysylltydd y sifft ar ddyletswydd.</p> <p>Roedd nifer o'r cleifion yn bryderus gan nad oeddynt wedi cael digon o rybudd ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer eu rhyddhau.</p>	<p>Sicrhau bod nyrs briodol wedi ei neilltuo i swyddogaeth cydgysylltydd y sifft, er mwyn cydgysylltu'r broses o ryddhau cleifion.</p> <p>Darparu addysg a chymorth datblygu i bob aelod o dîm y ward ynglŷn â chynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion.</p> <p>Cynllunio ar gyfer rhyddhau i'w gynnwys yn y broses dderbyn.</p> <p>Adolygu'r daflen wybodaeth i gleifion a chynnwys gwybodaeth ynglŷn â rhyddhau, a defnyddio'r Bwrdd Statws y Claf Ar Un Golwg.</p>	<p>Prif Nyrs y Ward, Uwch Nyrs.</p> <p>Prif Nyrs Uwch Nyrs.</p> <p>Prif Nyrs.</p>	<p>Erbyn mis Tachwedd 2012.</p> <p>Mae gwelliannau eisoes yn cael eu monitro drwy'r adolygiad o sylwadau'r cleifion o'r holiadur cleifion "2 funud o'ch amser".</p>

Pryder a nodwyd	Man a'r pryder penodol	Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Cynnydd ac Amserlen
11. GWEITHGAREDDAU				
<p>Dylai'r Bwrdd lechyd ystyried ffyrdd o ddarparu gweithgareddau ac ysgogiad i gleifion trwy gydol eu cyfnod yn yr ysbyty.</p>	<p>6 y Gorllewin</p> <p>Roedd ystafell ddydd ar gael ag ynddi deledu a llyfrau ond nid oedd unrhyw eitemau eraill i ysgogi'r cleifion neu i gynnig gweithgareddau iddynt.</p>	<p>Gwneud cais elusenol i wella'r cyfleusterau yn yr ystafell ddydd.</p> <p>Dylid datblygu swyddogaeth gwirfoddolwyr o ran cynorthwyo mewn gweithgareddau hamdden i gleifion</p>	<p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth a Phrif Nyrs y Ward.</p>	<p>Wedi ei gwblhau – Y cais wedi bod yn llwyddiannus, yn disgwyl am gyllid am y gwaith a dyfynbrisiau.</p> <p>Mae fframwaith gwirfoddoli wedi ei sefydlu yn y Bwrdd lechyd a thrafodir materion gweithgareddau. Mae'r swyddogaeth gyfeillio wedi ei chyflwyno a disgwylir iddi fod yn rhan o unrhyw sesiwn weithgareddau ar y wardiau, gan gynnwys unrhyw weithgareddau 1:1 fel chwarae gwyddbwyll, neu wyllo ffilm gyda chlaf. Mae cerddorion hefyd yn cynllunio amserlen o</p>

Pryder a nodwyd	Man a'r pryder penodol	Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Cynnydd ac Amserlen
				ymweliadau â phob ward.